



POLISI IAITH A DWYIEITHRWYDD

Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol :

Llofnod y Cadeirydd: Dyddiad:

Llofnod y Pennaeth: Dyddiad:

Dyddiad Adolygu:

Mae polisi iaith a dwyieithrwydd yr ysgol hon yn seiliedig ar Bolisi iaith yr Awdurdod:

- Meithrin agwedd bositif tuag at y ddwy iaith;
- Datblygu gallu ieithyddol mewn pob agwedd o'r ddwy iaith;
- Meithrin diddordeb mewn amrywiaeth o ffurfiau llenyddol;
- Codi ymwybyddiaeth o'r etifeddiaeth Gymreig.

Y Cyfnod Sylfaen:

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth sydd wedi eu strwythuro'n sensitif, y caiff pob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg i'w alluogi ef/hi i fod yn hollol ddwyieithog maes o law.

CA1:

Adeiladu ar seiliau'r iaith Gymraeg a osodir trwy addysg feithrin, er mwyn atgyfnerthu a datblygu mamiaith plant Saesneg eu hiaith sy'n dysgu Gymraeg, ac ymestyn gallu plant o gartrefi ble siaredir y Gymraeg, yn y Saesneg.

CA2:

Atgyfnerthu a datblygu gallu pob plentyn yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn pob agwedd, boed yn fynegiannol a derbyngar, er mwyn sicrhau y gall ef/hi siarad, darllen ac ysgrifennu'r ddwy iaith yn rhugl ac yn hyderus wrth drosglwyddo i'r ysgol Uwchradd.

Cyd-destun Cenedlaethol :

Mae dogfennau Llywodraeth Cymru megis Iaith Pawb (2003) a Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010) yn nodi hawl pob plentyn yng Nghymru fedru'r Gymraeg.

Dywed "Iaith fyw: iaith byw" - Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru:

"Gweledigaeth Iaith Pawb yn 2003 oedd creu Cymru ddwyieithog. Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010 yn adeiladu ar y trosolwg a geir yn 'Iaith Pawb.'"

Gweledigaeth Strategaeth Llywodraeth Cymru yw:

- cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg ;
- cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ;
- defnyddio'r iaith o fewn y teulu, yn y cymunedau ac yn y gweithle.

Er mwyn cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru dylid gosod sylfeini cadarn yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn y sector nas gynhelir ac yn yr ysgolion. Yn y cyfnodau allweddol eraill, mae angen strategaeth bendant er mwyn datblygu gafael y disgybl beth bynnag eu cefndir ieithyddol i ddatblygu eu gafael ar y Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, bydd y pwyslais a roddir ar y ddwy iaith ar wahanol adegau yn natblygiad disgybl yn gwahaniaethu yn ôl cefndir ieithyddol y disgybl a'r ardal a wasanaethir.

Cyd-destun Conwy:

Yn Strategaeth Iaith Sir Conwy mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddyheadau Llywodraeth Cymru i gynyddu yn barhaus y niferoedd a'r canrannau o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg.

Mae Gwasanaethau Addysg y Sir yn gosod nod uchelgeisiol er mwyn sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Rydym am annog balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Sir Conwy a Chymru.

Yn dilyn arolwg mesur y galw am Addysg Gymraeg ar draws Conwy mae'r Sir wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth yn flynyddol.

Amcanion Cyffredinol:

Amcan y Polisi iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, mae angen parhau i feithrin sgiliau'r disgyblion beth bynnag eu cefndir ieithyddol.

Disgwylir i holl sefydliadau Addysg y Sir weithredu'r Polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Amcan cyffredinol y polisi yw dwyieithrwydd. Y nod yw sicrhau bod disgyblion a myfyrwyr yn cael y symbyliad addysgol i feithrin sgiliau a hyder ieithyddol yn y ddwy iaith er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yw penodi athrawon cymwys i addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg yn unol â'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a pholisi iaith Conwy.

Ceir cyfleoedd i fynychu hyfforddiant iaith a methodoleg er mwyn uwch sgilio holl staff ysgol. Disgwylir i Lywodraethwyr a Thîm Rheoli'r ysgol hybu a chefnogi staff i fynychu hyfforddiant pellach a drefnir gan Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg ynghyd â Chynllun Sabothol Iaith Gymraeg Prifysgol Bangor.

Canolfan Iaith Conwy:

Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyrdyfyddiad CA2 ysgolion, Categori 1 yn bennaf, yng Nghanolfan Iaith y Sir. Dilyniwr cwrs sydd wedi ei strwythuro'n ofalus er mwyn hyrwyddo rhuglder ar lafar yn ogystal â meithrin sgiliau darllen ac ysgrifennu fel y gallent integridio'n rhwydd yn ôl yn eu hysgolion.

Categoriâu Ysgolion:

Mae'r categorïau isod yn diffinio ysgolion cynradd ac uwchradd Sir Conwy:

Yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a Strategaeth Gymraeg y Sir disgwylir i'r ysgolion category 2 - 5 gynyddu eu darpariaeth Gymraeg fydd yn eu galluogi i symud fyny'r categorïau o fewn amser penodol. Disgwylir hefyd i ddisgyblion Sir ddilyn yr un continiwwm iaith o un cyfnod allweddol i'r llall.

Categoriâu Ysgolion Cynradd:

1. Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg – Categori 1

Y cwricwlwm - Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 ac mae o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff Saesneg ei gyflwyno yn ffurfiol fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 a chaiff ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae'n bosibl y defnyddir Saesneg hefyd ar gyfer rai agweddau ar rai pynciau.

Iaith yr Ysgol - Cymraeg yw prif iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn naill iaith a'r llall.

Y deilliannau - Fel rheol, disgwylir y bydd disgyblion, beth bynnag bo iaith y cartref, yn gallu trosglwyddo'n hawdd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac y byddant wedi cyrraedd, erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, yr un safon yn y Saesneg â disgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg.

Bydd pob disgybl yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg iaith 1af, ag eithrio asesiad Saesneg.

2. Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd – Categori 2

Y cwricwlwm – Mae dau fath o ddarpariaeth yn bodoli ochr yn ochr yn yr ysgolion hyn. Mae'r rhieni/disgyblion yn dewis naill ai'r ddarpariaeth sy'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, a gyflwynir yn yr un modd ag yng nghategori 1, neu'r ddarpariaeth sy'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, a gyflwynir yn yr un modd ag yng nghategori 5.

Iaith yr Ysgol - Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Natur y ddarpariaeth gwricwlaidd sy'n pennu ym mha iaith y cyfathrebu â'r disgyblion, ond mewn rhai ysgolion, rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith neu'r llall.

Y deilliannau - Ar gyfer disgyblion yn y ffrwd Gymraeg, disgwylir, fel rheol, yr un canlyniadau ag ar gyfer categori 1. Ar gyfer y disgyblion hynny sydd yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, disgwylir, fel rheol, yr un canlyniadau ar gyfer categori 5.

Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg Iaith 1af, ag eithrio asesiad Saesneg.

Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Saesneg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Saesneg ond bydd asesiad y Gymraeg yn asesiad Cymraeg Ail Iaith.

3. Ysgol Gynradd Drawsnewidiol: cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg – Categori 3

Y cwricwlwm - Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Defnyddir y naill iaith a'r llall i addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Gymraeg, sy'n gyfrwng addysgu ar gyfer 50% a hyd at 70% o'r cwricwlwm.

(Dim ond dros dro byddai ysgolion yn y categori hwn fel arfer).

Iaith yr Ysgol - Cymraeg yw prif iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Y deilliannau – Fel rheol, disgwylir y bydd rhai o'r disgyblion, yn enwedig y rheini o gartrefi Cymraeg eu hiaith, yn gallu trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac y bydd pob disgybl, erbyn diwedd cyfnod Cyfnod Allweddol 2, wedi cyrraedd yr un safon yn y Saesneg â'r safon a gyrhaeddir gan ddisgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg.

Y nod fydd i bob disgybl gael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg Iaith 1af, ag eithrio asesiad Saesneg.

Y nod yw bydd yr ysgol mewn amser (4 blynedd) yn symud i ysgol categori 1, Cyfrwng Cymraeg.

4. Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg - Categori 4

Y cwricwlwm - Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu yn y naill iaith neu'r llall ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg wrth addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu ar gyfer 20% - 50% o'r cwricwlwm cynradd yn gyffredinol.

laith yr Ysgol - Cyd-destun ieithyddol yr ysgol sy'n pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill neu'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith neu'r llall.

Y canlyniadau - Disgwylir y bydd disgyblion, fel rheol, yn mynd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg, ond y bydd ganddynt gwell sgiliau o safbwynt y Gymraeg fel ail iaith. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r disgyblion yn gallu dilyn nifer bach o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel uwchradd os yw'r dewis hwnnw ar gael.

Bydd pob disgybl Cyfrwng Saesneg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Saesneg ond bydd asesiad y Gymraeg yn asesiad Cymraeg Ail iaith.

5. Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf – Categori 5

Y cwricwlwm - Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf ond ceir un maes dysgu ychwanegol sef Datblygu'r Gymraeg. Saesneg yw'r prif gyfrwng addysgu yn CA2. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith yn CA2, ac mae'n bosibl y caiff rhai agweddau ar rai pynciau eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llai na 20% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

laith yr Ysgol - Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir y Gymraeg hefyd i gyfathrebu â'r disgyblion, gan anelu at wella eu gallu i ddefnyddio Cymraeg bob dydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn Saesneg neu drwy gyfrwng y naill iaith neu'r llall.

Y canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y bydd y disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ac yn parhau i ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, gan ddysgu Cymraeg fel ail iaith.

Bydd pob disgybl Cyfrwng Saesneg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Saesneg ond bydd asesiad y Gymraeg yn asesiad Cymraeg Ail iaith.

Yr amcan yw na fydd yr un ysgol yng Nghonwy gydag amser yng Nghategori 5, yn unol â Strategaeth y Gymraeg Mewn Addysg 2014 – 2017, o fewn yr amser penodol a gytunwyd rhwng GwE a Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg.

Categoriâu Ysgolion Uwchradd

1. Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg – Categori 1

Y cwricwlwm - Addysgir pob pwnc (gan gynnwys Addysg Grefyddol ac ABCh) heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl, er bod rhai ysgolion, o bosibl, yn cyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau.

Iaith yr Ysgol - Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith neu'r llall.

Y deilliannau - Fel rheol, disgwylir y bydd pob disgybl yn cael ei asesu ym mhob pwnc heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3 a CA4 ac y bydd y disgyblion yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 cyfrwng Cymraeg.

Bydd pob disgybl yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg iaith 1af, ag eithrio asesiad Saesneg.

2. Ysgol Uwchradd Ddwylieithog - Categori 2

Y cwricwlwm - Mae'r categori hwn wedi ei rannu'n 4 is adran, yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a chan ddibynnu a yw'n cynnig yr un ddarpariaeth yn Saesneg. Nid yw'r categorïau a'r diffiniadau yn adlewyrchu nifer gyfran y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol. Bydd disgwyl i'r cyrff llywodraethu roi gwybodaeth ym mhrosbectws yr ysgol ynghylch i ba raddau y ceir dewis y ddarpariaeth ac a yw cael manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amodol ar gymhwysedd y disgybl yn y Gymraeg. Dylid nodi hefyd yn y prosbectws faint o ddisgyblion sy'n manteisio ar y dewisiadau sydd ar gael.

Categori 2A - Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.

Categori 2B – Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Categori 2C – Addysgir 50 – 79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Categori 2CH – Addysgir pob pwnc (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) i bob disgybl gan ddefnyddio'r naill iaith a'r llall.

Iaith yr Ysgol - Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau - Ar gyfer disgyblion yng nghategoriâu 2A, 2B a 2C sy'n dilyn y nifer uchaf posib o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny yn CA3 a CA4 ac y byddent yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis. Ar gyfer disgyblion yng nghategori 2Ch, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc heblaw am Saesneg yn CA3 a CA4 ac y byddent, fel rheol, yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis.

Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg iaith 1af, ag eithrio asesiad Saesneg.

Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Saesneg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Saesneg ond bydd asesiad y Gymraeg yn asesiad Cymraeg Ail iaith.

3. Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg – Categori 3

Y cwricwlwm – Addysgir y naill iaith a'r llall, ac addysgir 20 – 49% o'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rheol, byddai pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Iaith yr Ysgol - Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn y naill iaith a'r llall, neu yn Saesneg.

Y canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y gallai'r disgyblion hynny sy'n dewis y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac y byddant, o bosibl, yn gallu symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar ôl 16.

Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Saesneg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Saesneg ond bydd asesiad y Gymraeg yn asesiad Cymraeg Ail iaith.

4. Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf - Categori 4

Y cwricwlwm - Addysgir y disgyblion yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith hyd at diwedd CA4. Mae'n bosibl y gellir dewis dysgu un neu ddau bwnc (a allai gynnwys y Gymraeg fel iaith gyntaf) drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y naill iaith neu'r llall.

Iaith yr Ysgol - Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir rhywfaint o Gymraeg hefyd i gyfathrebu â'r disgyblion gan anelu at wella eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn Saesneg neu yn y naill iaith neu'r llall.

Y canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y gallai unrhyw ddisgyblion sy'n dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac mae'n bosibl y byddent yn gallu symud ymlaen i astudio'r pynciau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac mae'n bosibl y byddent yn gallu symud ymlaen i astudio'r pynciau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl 16. Byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Saesneg yn y rhan fwyaf o bynciau a byddent yn symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Saesneg ar ôl 16.

Bydd pob disgybl yn cael eu hasesu mewn Cymraeg Ail Iaith, arwahan i blant sy'n trosglwyddo o ysgolion Categori 1, Iaith Gyntaf.

Addysg Arbennig:

Yn achos disgyblion gydag anawsterau dysgu, bydd y Pennaeth mewn ymgynghoriad â Gwasanaethau Addysg CBS Conwy, yn ystyried pob achos yn unigol.

Gweithredu Polisi Iaith:

Pwrpas y polisi hon yn cyflwyno crynodeb o'r disgwyliadau a osodir ar benaethiaid, staff a llywodraethwyr mewn perthynas â gweithredu'r Polisi Iaith y Sir.

Disgwylir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'r staff a'r Corff Llywodraethu, adolygu'n rheolaidd Polisi Iaith yr ysgol, fydd yn adlewyrchu'r polisi hwn.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith yn ei ysgol/hysgol; mae disgwyl i'r Pennaeth ddarparu arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nôd y polisi ac i sicrhau bod ymdrechion staff yn cael eu hatgyfnerthu drwy sicrhau bod ethos Gymraeg a Chymreig briodol yn yr ysgol.

Monitro Gweithrediad y Polisi:

Bydd Gweithrediad y Polisi yn cael ei fonitro ar ran yr Awdurdod gan GwE a Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg fel rhan o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer monitro gwasanaethau.

Mae'r polisi ar gael o Wasanaethau Addysg CBS Conwy a Llyfrgelloedd Cyhoeddus.
Mae polisiâu ysgolion unigol ar gael yn Llawlyfrau'r Ysgolion.
Ffoniwch 01492 575 003 am wybodaeth am y Polisi iaith Gymraeg.



LANGUAGE AND BILINGUALISM POLICY

Policy adopted by Governing Body :

Signed by Chairperson: Date:

Signed by Headteacher: Date:

Review Date:

This school's language and bilingualism policy is based on the Authority's Language Policy:

- To foster a positive attitude towards both languages;
- To develop linguistic ability in every aspect of both languages;
- To foster interest in a variety of literary forms;
- To raise awareness of the Welsh heritage.

The Foundation Phase:

To ensure, through sensitively structured provision and organisation, that each child receives a firm foundation in Welsh in order to enable him/her in due course to attain the aim of full bilingualism.

KS1:

To build on the Welsh language foundation laid through nursery education, to consolidate and develop the mother tongue of English children who are Welsh learners, and extend the competence of children from Welsh speaking homes in English.

KS2:

To consolidate and develop each child's Welsh and English capabilities in all aspects, both expressive and receptive, so as to ensure that he/she can speak, read and write fluently and confidently in both languages upon transferring to Secondary school.

National Context:

The Welsh Government's documents such as Iaith Pawb (2003) and the Welsh Medium Education Strategy (2010) states the right of every child in Wales to be able to speak Welsh.

The Welsh Government's Welsh Language Strategy "Iaith fyw: iaith byw" states:

"The vision of Iaith Pawb in 2003 was to create a bilingual Wales. The Welsh Medium Education Strategy 2010 builds on the overview given in 'Iaith Pawb.'"

The Strategy's Vision is:

- to have an education and training system which responds in a planned way to the increasing demand for Welsh medium education;
- to reach our varied communities and reflects them and ensures an increase in the number of people of all ages who are fluent in Welsh;
- to use the language with their families, in their communities and in the workplace.

Strong foundations should be set in the Welsh language in the foundation phase in the non-maintained sector and in schools. In the other key stages, a clear strategy is required to develop the pupil's grasp of the Welsh language whatever their linguistic background. In this context, the emphasis given on both languages at different times during a child's development differentiates according to their linguistic background and the area they serve.

County Context:

In the Conwy county Language Strategy the council is committed to the Welsh Government's aspirations to continuously increase the numbers and percentages of the population able to speak Welsh.

The county's Education Services have set the ambitious aim of ensuring that all pupils in the county acquire fluent and confident linguistic skills in Welsh and English to enable

them to be full members of the bilingual society they are part of. We encourage pride in the languages, heritage and culture of Conwy county and Wales.

Following the audit to measure the demand for Welsh education across Conwy the county are committed to annually increasing the provision.

General Aims:

The aim of the policy is to ensure that all pupils in the county have strong linguistic skills in Welsh and English.

Appropriate provision must be ensured to allow every pupil to develop proficiently bilingual skills. In this context, pupils' skills must continue to be fostered whatever their linguistic background.

All education establishments in the county are expected to implement the language policy in their administration, their social life and pastoral process as well as in their curricular provision.

The general aim of the policy is bilingualism. The objective is to ensure that pupils and students receive the educational motivation to foster linguistic skills and confidence in both languages to enable them to be full members of the bilingual society in which they live.

Governors are responsible for appointing qualified teachers to teach Welsh and English in line with the Foundation Phase Framework, the National Curriculum and Conwy language policy.

There are opportunities to attend language and methodology training to upskill all school staff. Governors and the school management team are expected to encourage and support staff to attend further training arranged by Welsh in Education Officers along with Bangor University Welsh Language Sabbatical Scheme.

The Conwy Welsh Language Centre:

Special provision is made for latecomers in the county's Language Centre for one school term. They follow an intense course that has been carefully structured to promote fluency in the spoken language as well as nurture reading and writing skills, in order to be able to integrate back into their main stream school at the end of the period.

School Categories:

The following categories define Conwy county primary and secondary schools:

In line with the vision of the Welsh Government and the county's Welsh Education Strategy category 2 - 5 schools are expected to increase their Welsh medium provision which will enable them to move up the categories within a specific timeframe. The county's pupils are also expected to follow the same language continuum from one key stage to the next.

Primary Schools Categories:

1. Welsh Medium Primary Schools – Category 1

Curriculum - all pupils in the foundation phase experience the areas of learning through the medium of Welsh. Welsh is the main teaching medium at KS2 with at least 70% of the teaching through the medium of Welsh. English is introduced formally as a subject at Key Stage 2 and is taught through the medium of English, and English may occasionally be used for some aspects of some subjects.

Language of the School - Welsh is the day to day language of the school. Welsh is used as the language of communication with the pupils and for the school's administration. The school communicates with parents in both languages.

Outcomes - The normal expectation is that pupils, regardless of home language, will be able to transfer easily to Welsh medium secondary provision and by the end of Key Stage 2 will have reached a standard in English equivalent to that reached by pupils in predominantly English medium schools.

All pupils will be assessed in Welsh 1st language, except the English assessment.

2. Dual Stream Primary School – Category 2

Curriculum - Two types of provision exist side-by-side in these schools. Parents/pupils opt either for the mainly Welsh-medium or mainly English-medium provision which is usually delivered as in categories 1 and 5 respectively

Language of the School - Both Welsh and English are used in the day to day business of the school. The language of communication with the pupils is determined by the nature of the curricular provision, but in some schools high priority is given to creating a Welsh-

language ethos throughout the school. The school communicates with parents in both languages.

Outcomes - for pupils in the Welsh stream, normal expectations are as for category 1. For pupils in the English medium stream, normal expectations are as for category 5.

All pupils will be assessed in Welsh 1st language, except the English assessment.

All pupils in the second language stream will be assessed in English but their Welsh assessment will be Welsh second language,

3. Transitional primary school: Welsh medium with significant use of English – Category 3

Curriculum - Pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning mainly through the medium of Welsh. Both languages are used in teaching at Key Stage 2 but with greater emphasis on Welsh, so that Welsh is used as the medium of instruction for over half and up to 70% of the curriculum.

(Schools would usually only be in this category on a temporary basis).

Language of the School - Welsh is the language of the day to day business of the school. A high priority is given to creating a Welsh ethos. The school communicates with parents in both languages.

Outcomes - The normal expectation is that some pupils, particularly from Welsh speaking homes may be able to transfer to Welsh medium secondary provision and by the end of Key Stage 2 all pupils will have reached a standard in English equivalent to that reached by pupils in predominantly English medium schools.

The aim is for all pupils to be assessed in Welsh 1st language, except the English assessment.

The aim is for the school, in time (4 years) to move to a category 1, Welsh medium school.

4. Predominantly English Medium primary school but with significant use of Welsh – Category 4

Curriculum - Pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning in both languages but with greater emphasis on English. In Key Stage 2, both Welsh and English is used in teaching but there is greater emphasis on English. Welsh is used as the medium of teaching or learning for between 20% and 50% of the primary curriculum overall.

Language of the School - The day to day language or languages of the school are determined by the school's linguistic context. Both languages are used as languages of communication with the pupils and for the school's administration. A high priority is given to creating a Welsh ethos. The school communicates with parents in both languages.

Outcomes - The normal expectation is that pupils will transfer to English medium secondary provision, but will have attained enhanced Welsh second language skills. Some pupils may be able to pursue a limited number of subjects through the medium of Welsh at secondary level where these are offered.

All pupils will be assessed in English but their Welsh assessment will be Welsh second language,

5. Predominantly English medium primary school – Category 5

Curriculum - All pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning mainly through the medium of English. English is the main teaching medium at KS2. Welsh is taught as a second language in KS2, and some aspects of some subjects may be taught in Welsh.

Less than 20% of the teaching is through the medium of Welsh.

Language of the School - English is the language of the day to day business of the school, but some Welsh is also used as a language of communication with the pupils with the aim of improving their capacity to use everyday Welsh. The school communicates with parents either in English or in both languages.

Outcomes - The normal expectation is that pupils will transfer to English medium secondary provision and continue to learn predominantly through the medium of English, learning Welsh as a second language.

All pupils will be assessed in English but their Welsh assessment will be Welsh second language,

The aim is, in time, that no school in Conwy will be in category 5, in line with the Welsh in Education Strategy 2014 – 2017, within the specific time agreed between GwE and Welsh in Education officers.

Secondary School Categories

1. Welsh-Medium Secondary School – Category 1

Curriculum - All subjects (including RE and PSE) apart from English are taught through the medium of Welsh to all pupils, although some schools may introduce English terminology in one or two subjects.

Language of the School - Welsh is the day to day language of the school. Welsh is used as the language of communication with the pupils and for the school's administration. The school communicates with parents in both languages.

Outcomes - For all pupils the normal expectation is that assessment at KS3 and KS4 will be through the medium of Welsh in all subjects apart from English or other languages, and that pupils will be able to progress easily to Welsh medium Post 6 provision.

All pupils will be assessed in Welsh 1st language, except the English assessment.

2. Bilingual Secondary School – Category 2

Curriculum - This category has 4 sub-divisions according to the percentage of subjects taught through the medium of Welsh and whether there is parallel provision in English. The categories and definitions do not reflect the number or proportion of pupils taking advantage of provision in Welsh in a school. Governing bodies will be expected to provide information in the school prospectus on the extent to which choice of provision is available and whether access to Welsh medium provision is conditional on the level of competence the pupil has in Welsh. The prospectus should also indicate the number of pupils taking up choices of provision.

Category 2A - At least 80% of subjects apart from English and Welsh are taught only through the medium of Welsh to all pupils. One or two subjects are taught to some pupils in English or in both languages.

Category 2B - At least 80% of subjects (excluding Welsh and English) are taught through the medium of Welsh but are also taught through the medium of English.

Category 2C - 50 - 79% of subjects (excluding Welsh and English) are taught through the medium of Welsh but are also taught through the medium of English.

Category 2CH - All subjects, except Welsh and English taught to all pupils using both languages.

Language of the School - The day to day language or languages of the school will be determined by its linguistic context. Both languages are used to communicate with pupils and for the school's administration. A high priority is given to creating a Welsh ethos. The school communicates with parents in both languages.

Outcomes - For pupils in 2A, 2B and 2C following the maximum number of courses through the medium of Welsh, the normal expectation is that assessment at KS3 and KS4 would be through the medium of Welsh in those subjects and that they would be able to progress easily to post 6 provision through the medium of Welsh in chosen subjects. For pupils in Category 2Ch the normal expectation is that assessment at KS3 and KS4 would be through the medium of Welsh in all subjects except English and that they would normally be able to progress easily to study at post 6 through the medium of Welsh in chosen subjects.

All pupils will be assessed in Welsh 1st language, except the English assessment.

All pupils in the second language stream will be assessed in English but their Welsh assessment will be Welsh second language.

3. Predominantly English medium secondary school with significant use of Welsh - Category 3

Curriculum - Both languages are used in teaching with 20 - 49% of subjects taught through the medium of Welsh. All subjects would normally also be taught through the medium of English.

Language of the School - The day to day language or languages of the school will be determined by its linguistic context. Both languages are used for communication with the pupils and for the school's administration. A high priority is given to creating a Welsh ethos. The school communicates with parents either in both languages or in English.

Outcomes - The normal expectation is that pupils choosing Welsh medium options could be assessed through the medium of Welsh in those subjects at all levels and may be capable of progressing to study at post 6 through the medium of Welsh for those subjects.

All pupils will be assessed in English but their Welsh assessment will be Welsh second language,

4. Predominantly English Medium secondary school – Category 4

Curriculum - Pupils are mainly taught through the medium of English. Welsh is taught as a second language up to KS4. One or two subjects (which would include Welsh first language) may be taught as an option through the medium of Welsh or using both languages.

Language of the School - English is the day to day language of the school, but some Welsh is also used as a language of communication with the pupils, with the aim of improving their capacity to use everyday Welsh. The school communicates with parents either in English or in both languages.

Outcomes - The normal expectation is that any pupils choosing Welsh medium options could be assessed through the medium of Welsh in those subjects at all levels and may be capable of progression to study at post 16 through the medium of Welsh for those subjects. Most pupils would be assessed in English in most subjects and would progress to English medium post 16 study.

All pupils will be assessed in English but their Welsh assessment will be Welsh second language,

Special Education:

In the case of pupils with learning difficulties, the Headteacher in consultation with Conwy CBC Education Services, will consider every case individually.

Implementing the Language Policy:

The purpose of this policy is to present a summary of the expectations placed on Headteachers, staff and governors to implementing the County's language policy.

Every Headteacher, in consultation with the staff and governing body, is expected to regularly review the school's language policy, which will reflect this policy.

The Headteacher is responsible for ensuring the success of the language policy in their school; the Headteacher is expected to provide clear guidance to establish a thorough understanding of the aim of the policy and to ensure that the efforts of the staff are reinforced by ensuring an appropriate Welsh ethos in the school.

Monitoring the Implementation of the Policy:

The implementation of the policy is monitored on behalf of the authority by GwE and Welsh in Education officers as part of the general arrangements for monitoring services.

The policy is available from Conwy CBC Education Services and public libraries. Individual school policies are available in the school's handbooks.

Please phone 01492 575 003 for information about the Welsh Language Policy.

